

Astudiaethau Achos

Sir Gaerfyrddin

Cynnwys

Astudiaeth achos: Ymweliadau Diogel ac Iach.....	4
Cefndir:	4
Gwaith a gyflawnwyd:	4
Buddion:	4
Gwersi/Arferion Gorau:.....	5
Astudiaeth achos – Tîm Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar	6
Cefndir:	6
Beth mae rhieni yn ei ddweud:.....	6
Gwersi:.....	7
Astudiaeth achos: Ymdopi â Galw Digynsail am Gymorth Llesiant.....	8
Cefndir:	8
Gwaith a gyflawnwyd:	8
Buddion:	8
Gwersi/Arferion Gorau:.....	9
Astudiaeth achos: Cwrs Momentwm.....	10
Cefndir:	10
Gwaith a gyflawnwyd:	10
Buddion:	10
Gwersi/Arferion Gorau:.....	11
Astudiaeth achos: Strydoedd Mwy Diogel	12
Cefndir:	12
Gwaith a gyflawnwyd:	12
Buddion:	13
Gwersi/Arferion Gorau:.....	13
Astudiaeth achos: Tegwch o ran Brechu yn Hywel Dda.....	14

Cefndir:	14
Gwaith a gyflawnwyd:	14
Buddion:	15
Gwersi/Arferion Gorau:.....	15
Astudiaeth achos: Defnyddio Gwirfoddolwyr	16
Cefndir:	16
Gwaith a gyflawnwyd:	16
Buddion:	16
Gwersi/Arferion Gorau:.....	17
Astudiaeth achos: Cymorth Dementia – Protocol Herbert / Neges mewn potel	18
Cefndir:	18
Gwaith a gyflawnwyd:	18
Buddion:	19
Gwersi/Arferion Gorau:.....	19

Astudiaeth achos: Ymweliadau Diogel ac Iach

Cefndir:

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi cynnal ymweliadau â chartrefi pobl ers dros 15 mlynedd ac maent bellach wedi datblygu hyn i wneud mwy nag edrych ar risg tân yn yr eiddo. Dyna pam y'u gelwir bellach yn ymweliadau Diogel ac Iach (SAW) yn hytrach na gwiriadau diogelwch tân yn y cartref.

Yn ogystal â gwybodaeth diogelwch tân, bydd staff yn nodi ac yn darparu arweiniad a chyfeiriadau yn y meysydd canlynol

- Rhoi'r gorau i ysmegu
- Diogelwch y cartref
- Sgamio
- Unigrwydd ac arwahanrwydd
- Cwypïadau
- Cynhesrwydd yn y gaeaf / tlodi tanwydd
- Byw gyda dementia (gweler astudiaeth achos arall)

Mae'r pynciau hyn yn ychwanegol at ddyletswyddau statudol eraill i nodi ac adrodd ar faterion diogelu ac i ofyn a gweithredu ar arwyddion o Drais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV).

Gwaith a gyflawnwyd:

Fel rhan o'r ehangu, mae ein holl staff wedi cael eu hyfforddi i gyflwyno negeseuon a chyfeiriadau i bobl ar y pynciau uchod. Mae partneriaethau wedi'u sefydlu gyda sefydliadau a all ddarparu cymorth ychwanegol i'r rhai y nodwyd bod angen cymorth arnynt.

Mae hyn wedi bod yn digwydd ers 2017 er ei fod wedi bod yn esblygu ac yn newid i'r hyn a welwn heddiw.

Buddion:

Mae ymweliadau SAW wedi'u seilio ar egwyddorion 'Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif' fel y gall un asiantaeth ddarparu negeseuon diogelwch lluosog neu gymorth ychwanegol cyn gynted ag y caiff ei nodi. Mae'n sicrhau bod negeseuon diogelwch a chyfeiriadau'n cael

eu cyflwyno'n brydlon ac yn arbed asiantaeth arall rhag gorfod mynd i eiddo i gyfleu eu negeseuon diogelwch eu hunain.

Gwersi/Arferion Gorau:

- Mae wedi galluogi staff i ddarparu lefel well o wasanaeth i'r bobl y maent yn eu cyfarfod.
- Mae'n cynyddu ymwybyddiaeth staff o faterion sydd angen eu nodi y tu allan i'r maes diogelwch tân.
- Mae'n annog cydweithio agosach ag asiantaethau partner fel bod staff yn darparu gwybodaeth gywir a chyfredol.
- Mae'n agor llwybrau atgyfeirio ychwanegol i staff pan fyddant yn nodi problemau.

Astudiaeth achos – Tîm Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar

Cefndir:

Crëwyd Tîm Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar yn 2020 mewn ymateb i Raglen Trawsnewid y Blynyddoedd Cynnar Llywodraeth Cymru. Mae'n brosiect ar y cyd rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Chyngor Sir Caerfyrddin, sydd wedi'i leoli yng Nghwm Gwendraeth wledig.

Nod y tîm yw:

- Cefnogi rhieni i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i'w plant.
- Cryfhau'r gymuned trwy gefnogi teuluoedd i fod yn hyderus a'u bod yn gallu cael mynediad at gefnogaeth pan fo'i eisiau neu ei angen.
- Creu cyfleoedd cymorth i deuluoedd trwy nodi bylchau ac yna dyfeisio grwpiau, gweithgareddau, neu gefnogaeth un-i-un yn y cartref
- Gweithio mewn partneriaeth â gwasanaethau iechyd, awdurdodau lleol, y trydydd sector a gwirfoddol
- Lleihau anghydraddoldebau iechyd
- Cefnogi a gwella gwasanaethau Ymwelwyr Iechyd a Bydwreigiaeth Lleol
- Dyfeisio a phrofi ffyrdd newydd o gefnogi teuluoedd
- Meithrin gwydnwch mewn teuluoedd

Beth mae rhieni yn ei ddweud:

"Cyn i ni gysylltu â chi roedden ni wedi blino'n llwyr, wedi cael llond bol, yn ddiflas, roedden ni'n ffraeo'n gyson. Doedden ni ddim yn gwybod sut i wneud i'n merch gysgu yn ei gwely nac i atal y stranciau ofnadwy. Daethoch chi a rhoi cyfarwyddiadau syml iawn i ni feistroli amser gwely. Nawr rydyn ni'n cael amser gyda'n gilydd fel cwpl ac yn cael diwrnodau heb strancio oherwydd bod pawb wedi gorffwys. Allwn ni ddim diolch digon i chi."

"Y peth gorau wnes i erioed oedd galw, roedden ni mewn lle tywyll cyn i ni weld y daflen yn dod drwy'r drws. Rydych chi wedi bod yn gymwynasgar, ac rydym wrth ein boddau. Diolch."

"Rwy'n meddwl bod y ffaith eich bod chi'n dod i'r tŷ wedi fy helpu i sylweddoli bod y bechgyn yn fach iawn ac nad ydyn nhw'n gwybod sut i fynegi eu hunain, felly maen

nhw'n mynd yn grac ac yn rhwystredig. Rwy'n ceisio deall yn well beth maen nhw'n ceisio'i ddweud ac mae hynny wedi gwneud pethau'n llawer haws."

"Ers cychwyn Amser Canu mae wedi dechrau canu a chofio caneuon cyfan ar ei ben ei hun, yn ddigymell!"

"Roeddwn i'n unig iawn oherwydd covid. Doeddwn i ddim yn gallu gweld fy nheulu am help, ond fe ddaethoch chi i fy helpu i ddeall ei ddatblygiad ac rydw i yn fwy amyneddgar nawr.

"Roedden ni bob amser yn cael sgwrs ar y dechrau a'r diwedd, roedd yn hyfryd gweld mamau newydd."

Gwersi:

- Mae rhieni eisiau cymorth ond nid ydynt bob amser yn gwybod sut i gael gafael arno
- Mae gwybodaeth a chymorth hygyrch yn hwyluso gwydnwch teuluoedd
- Mae staff iechyd yn hanfodol i gydweithio ar draws asiantaethau iechyd, y trydydd sector, awdurdodau lleol ac asiantaethau gwirfoddol
- Mae hysbysu rhieni yn golygu hysbysu gwasanaethau iechyd cyffredinol fel y gallant gyfeirio neu atgyfeirio teuluoedd yn effeithiol
- Mae gweithio mewn partneriaeth yn ffordd gost-effeithiol o gefnogi teuluoedd
- Mae cyfathrebu yn allweddol
- Mae'n rhaid i berthnasoedd proffesiynol gael eu llunio a'u cynnal yn rhagweithiol er mwyn gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth.

Astudiaeth achos: Ymdopi â Galw Digynsail am Gymorth Llesiant

Cefndir:

Cyn y pandemig, roedd y gwasanaethau Cymorth Llesiant i Ddysgwyr yng Ngholeg Sir Gâr yn gweithredu hyd eithaf eu gallu, gan gynnig cymorth iechyd meddwl a llesiant cyffredinol trwy wasanaethau mentora a chynghori. Ar gyfartaledd, roedd pedwar cant o fyfyrwr fesul blwyddyn academiaidd yn derbyn y gwasanaethau hyn, yn bennaf ar sail y cyntaf i'r felin.

Yn ystod cyfnod clo cyntaf, cynyddodd y galwadau ar y gwasanaethau hyn yn sydyn.

Gwaith a gyflawnwyd:

Cyflwynwyd system cymorth brysbennu i ymdopi â'r cynnydd, gyda phroses atgyfeirio ac asesu newydd. Cysylltwyd â'r holl ddysgwyr a gyfeiriwyd at y system a'u cefnogi mewn rhyw fodd, heb eu cadw ar restr aros.

Creodd y tîm cymorth dysgu gofrestr 'mewn perygl' a blaenoriaethu'r dysgwyr hyn ar gyfer cymorth. Nodwyd y rhain gan risg hysbys o hunan-niweidio, ymddygiadau anniogel, camddefnyddio sylweddau, perthnasoedd afiach, digartrefedd neu amgylcheddau cartref ansefydlog.

Yn ogystal â'r cymorth 1:1 traddodiadol a gynigir, cyflwynwyd gwasanaethau newydd fel gwaith grŵp, gwasanaeth cyfathrebu neges testun rheolaidd, adnoddau ar-lein a argymhellir a gweithdai byw ar-lein, yn ymdrin â phynciau perthnasol gan gynnwys pryder, gwydnwch ac ymdopi â'r cyfyngiadau symud.

Rhoddyd pwyslais hefyd ar ennyn diddordeb dysgwyr mewn gweithgaredd anacademaidd. Anogwyd grwpiau cymdeithasol lle gallai myfyrwr ddod at ei gilydd mewn amgylchedd hamddenol ar-lein. Mae hyn wedi parhau ar ôl y cyfnodau clo ac yn cael ei redeg 'wyneb yn wyneb' (wrth i gyfyngiadau ganiatáu).

Buddion:

Roedd y dull newydd yn galluogi niferoedd sylweddol uwch o ddysgwyr i ymgysylltu â'r gwasanaethau. Erbyn Mehefin 2020, roedd dros 1000 o ddysgwyr wedi ymgysylltu â'r opsiynau hyn.

Mae'r dull brysbennu newydd wedi helpu i leihau oedi a lleihau rhestrau aros. Yn ogystal, mae rhoi blaenoriaeth glir i ddysgwyr 'mewn perygl' wedi arwain at 88% o'r garfan hon o ddysgwyr ar gyfartaledd yn cael cymorth dwys yn wythnosol.

Mae'r broses newydd wedi safoni a phroffesiynoli'r 'broses brysbennu' ymhellach. Yn ogystal, mae swyddog asesu hyfforddedig gyda chefnidir clinigol wedi'i recriwtio i'r tîm.

Gwersi/Arferion Gorau:

Mae'r niferoedd uchaf erioed o fyfyrwyr yn parhau i gael eu cefnogi, a chaiff pob un ei asesu deirgwaith y flwyddyn academaidd i fesur eu cynnydd. Mae hyn hefyd yn sicrhau bod y timau cymorth yn dyrannu'r cymorth cywir ar yr amser cywir. Mae cysylltiadau â phartneriaid eraill fel ysgolion, gwasanaethau cymdeithasol ac awdurdodau lleol hefyd wedi gwella.

Cydnabuwyd y broses newydd hon gan Estyn, y corff arolygu ar gyfer ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru, fel arfer orau. Roedd yn ymddangos yn eu hadroddiad thematig, 'Gwaith darparwyr addysg bellach, dysgu yn y gwaith a dysgu oedolion yn y gymuned yn ystod y pandemig COVID-19' ym mis Mawrth 2021.

Astudiaeth achos: Cwrs Momentwm

Cefndir:

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi bod yn ffodus i dderbyn cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i gynnal cyrsiau sydd wedi'u hanelu at gefnogi pobl sydd wedi dioddef cam-drin domestig. Mae'r cyllid ar hyn o bryd yn caniatáu i ni redeg un cwrs y flwyddyn ac am y tro cyntaf, mae'r cwrs wedi'i gynnal yn Sir Gaerfyrddin - yng Nghaerfyrddin ym mis Ionawr / Chwefror 2022.

Gwaith a gyflawnwyd:

Mae'r cwrs Momentwm wedi'i anelu at deuluoedd sydd wedi profi cam-drin domestig. Nod y cwrs yw rhoi 2 awr yr wythnos i'r teulu cyfan dros 6 wythnos o weithgareddau wedi'u cynllunio i hybu eu hunanhyder a'u hunan-barch, ac yn y broses rannu eu profiadau a dysgu oddi wrth ei gilydd. Mae'r cwrs yn cael ei hwyluso gan staff a gwirfoddolwyr GTACGC ac mae ganddo weithgareddau i'r mamau a'r plant o bob oed a darperir gweithgareddau a chyfleusterau creche i alluogi'r mamau i gymryd rhan lawn yn eu gweithgareddau eu hunain heb boeni ble mae eu plant. Darperir bwyd hefyd i bawb sy'n mynychu.

Mae gweithgareddau wedi cynnwys: -

- Gweithdy gwydr lliw
- Noson pampro
- Dringo ysgolion / Gweithgareddau sy'n ymwneud â'r gwasanaeth tân
- Ymweliad gan gi chwilio ac achub y Gwasanaeth Tân ac Achub
- Addurno cacennau
- Gwneud canhwyllau
- Gwneud gemwaith

Buddion:

Rydym wedi canfod bod y buddion yn rhai eang. O ddatgeliadau ychwanegol gan bob aelod o'r teulu gan eu bod yn teimlo eu bod mewn lle diogel, i weld holl aelodau'r teulu'n magu hyder wrth iddynt lwyddo. I rai, ceir teimlad o sicrwydd a phryd o fwyd i'r teulu cyfan o leiaf unwaith yr wythnos. Yn dilyn un o'r cyrsiau sy'n cael eu cynnal mewn sir

wahanol, sefydlodd y cyfranogwyr grŵp What's app ac maent yn parhau i gyfarfod yn rheolaidd.

Gwersi/Arferion Gorau:

- Mae'r angen am gyfleusterau creche yn hanfodol os yw'r mamau am allu cymryd rhan lawn yn y gweithgareddau.
- Cael staff hyfforddedig sy'n gallu delio ag unrhyw ddatgeliadau ychwanegol (rhieni a phlant) a gallu cysylltu'r person â gwasanaethau ychwanegol.
- Deall y bydd pobl ar wahanol gamau o'u taith allan o gam-drin domestig, ac y bydd rhai yn siarad yn agored am eu profiadau tra na fydd eraill am wneud hynny - a bod hynny'n iawn hefyd.
- Bod yn glir nad yw'n wasanaeth cwnsela neu therapi. Mae'n gwrs sy'n seiliedig ar weithgareddau lle gallant gael cyfle i wneud rhywbeth gwahanol.

Astudiaeth achos: Strydoedd Mwy Diogel

Cefndir:

Ymestynnwyd gwaith aml-asiantaeth yn 2020 i fynd i'r afael â materion trosedd ac anhrefn yn Nhyisha, fel rhan o'r prosiect cydweithredol uchelgeisiol 'Trawsnewid Tyisha' i adfywio'r ardal trwy gynyddu diogelwch cymunedol, datblygu tai a chyfleusterau cymunedol a gwella'r amgylchedd. Roedd hyn yn dilyn ymgysylltu â'r gymuned leol i nodi pryderon a materion allweddol preswylwyr.

Gwaith a gyflawnwyd:

Mae cyllid wedi darparu adnoddau staffio i fynd i'r afael â phroblemau penodol, gwelliannau amgylcheddol a darparu offer atal trosedd. Mae hyn yn cynnwys cyllid 'Strydoedd Diogel' y Swyddfa Gartref, a sicrhawyd gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu, gan weithio gyda phartneriaid gan gynnwys y Cynghorau Sir a Thref. Y nod yw gwneud i drigolion deimlo'n fwy diogel a lleihau troseddau meddiangar yng Nglanymôr, Tyisha ac Elli.

Mae cyfran uchel o droseddau meddiangar yn yr ardaloedd hyn, gan gynnwys byrgleriaeth o dai/siediau, dwyn, lladrad, lladrad beiciau a cherbydau a throseddau cerbydau.

Gwnaeth Archwiliad Gweledol Amgylcheddol argymhellion yn ymwneud â strwythur, gwyliadwriaeth, cynnal a chadw a gwelliannau ffisegol i atal troseddau. O hyn, bu Timau Plismona Bro yn cydweithio â phartneriaid i gyflwyno ymgyrch amlwg iawn yn cynnig Pecynnau Lleihau Troseddu i bob cartref. Roedd y rhain yn cynnwys marcio eitemau gwerthfawr gyda DNA i'w gwneud yn hawdd i'w cysylltu â'r cyfeiriad a'r perchennog penodol. Darparwyd cloeon drws, goleuadau synhwyro awyr agored a chloeon giât/sied hefyd. Cyfeiriwyd trigolion agored i niwed at Swyddogion Atal Troseddu arbenigol am gymorth a chyngor ychwanegol.

Mae Wardeniaid Cymunedol wedi cael eu cyflogi ar brosiect Trawsnewid Tyisha Cyngor Sir Caerfyrddin, gan ddefnyddio cyllid y Cyngor Sir a Strydoedd Diogel. Mae'r rôl hon wedi helpu i atal troseddu, defnyddio offer i frwydro yn erbyn ymddygiad gwrthgymdeithasol ac adfer diogelwch a sicrwydd i'r gymuned. Mae'r swyddogion wedi cael Gorchymyn Cau llwyddiannus ar gyfer achos ymddygiad gwrthgymdeithasol difrifol,

hysbysiadau cosb benodedig am dipio anghyfreithlon ac wedi adfywio cynlluniau Gwarchod Cymdogaeth Lleol.

Buddion:

Mae ymgysylltu â chymunedau lleol wedi helpu rhoi sicrwydd i gymunedau lleol am ddiogelwch y cyhoedd, mynd i'r afael â throseddau ac amddiffyn trigolion trwy leihau cyfleoedd i ddod yn ddioddefwyr trosedd. Mae hyn wedi cynnwys cynnig cyngor atal trosedd ac offer diogelu.

Roedd hefyd yn galluogi'r heddlu i gasglu gwybodaeth i ddeall pryderon a phroblemau trigolion lleol yn well. Mae hyn wedyn wedi llywio gwaith yr heddlu o ran targedu adnoddau a datrys problemau.

Mae llawer mwy o gydweithio wedi digwydd gyda phartneriaid gan gynnwys Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Dyfed a'r Gwasanaeth Tân ac Achub.

Darparwyd pecynnau atal trosedd i dros 800 o eiddo.

Gwersi/Arferion Gorau:

Gwrthododd tua 400 eiddo y pecynnau atal trosedd. Mae'n hysbys hefyd nad yw llawer o'r pecynnau marcio eiddo wedi'u defnyddio.

Mae swyddogion y Timau Plismona Bro bellach wedi derbyn hyfforddiant ychwanegol ar gyfer gwell darpariaeth a fydd o fudd pan fydd ardaloedd eraill yn barod i dderbyn y citiau.

Astudiaeth achos: Tegwch o ran Brechu yn Hywel Dda

Cefndir:

Mae tegwch mewn imiwneiddio yn lleihau'r risg o glefydau y gellir eu hatal â brechlyn ymhlith unigolion a chymunedau agored i niwed sy'n wynebu risg uwch o ganlyniadau iechyd gwael o ddal y clefyd. Mae lleihau annhegwch mewn imiwneiddio yn rhan bwysig o gefnogi cymunedau i gyflawni eu potensial iechyd llawn waeth beth fo'u daearyddiaeth, statws demograffig, cymdeithasol neu economaidd.

Mae'r pandemig coronafeirws wedi tynnu sylw at fwllch yn y nifer sy'n cael y brechlyn COVID-19 yn enwedig yn y grwpiau hynny yr effeithiwyd arnynt yn anghymesur gan y pandemig, er enghraifft, y rhai o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig a'r rhai sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol sy'n byw mewn cymunedau ag amddifadedd uchel neu allgau cymdeithasol gan gynnwys y digartref, y rhai ag afiechyd meddwl a'r rhai o gymunedau teithwyr.

Mae'r rhesymau dros yr annhegwch hwn yn amlochrog, fodd bynnag, mae deall yr achosion sylfaenol a datblygu gwasanaethau wedi'u targedu i ddiwallu anghenion y rheini sydd heb eu brechu neu sydd wedi'u tan-frechu yn rhan sylfaenol o'r gwaith a wneir gan Grŵp Tegwch o ran Brechu amlasiantaeth Hywel Dda.

Gwaith a gyflawnwyd:

- Cyflogi Gweithwyr Allgymorth Cymunedol i ymgysylltu â chymunedau lleiafrifol ar faterion iechyd a chymdeithasol trwy feithrin ymddiriedaeth a chodi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau sydd ar gael iddynt.
- Defnyddio'r Cerbyd Brechu Symudol (MVV) i gynnal clinigau brechlyn dros dro mewn ardaloedd o amddifadedd economaidd-gymdeithasol, safleoedd teithwyr, cymunedau gwledig ac mewn colegau/prifysgolion a gweithleoedd.
- Rhannu dolenni i Gwestiynau Cyffredin a gwybodaeth am y brechlyn mewn fformat Hawdd ei Ddarllen, ieithoedd heblaw Cymraeg neu Saesneg, fideos BSL a gwybodaeth a gynhrychir gan grwpiau digartrefedd ac anabledd dysgu
- Darparu cymorth cyfieithu a chyfieithu ar y pryd uniongyrchol
- Prosiect wedi'i dargedu i gyrraedd gofalwyr di-dâl.
- Model cyflwyno wedi'i addasu mewn Canolfannau Brechu Torfol i ganiatáu i rai grwpiau gael mynediad i'r ganolfan ar adegau penodol fel y gellir darparu cymorth

ychwanegol. Roedd hyn yn cynnwys darparu cymorth ychwanegol i fenywod beichiog a allai gael mynediad uniongyrchol at y Fydwraig ar ddyletswydd.

Buddion:

- Cynnydd yn y nifer sy'n cael brechlyn COVID-19 mewn grwpiau targed
- Roedd sefydlu'r grŵp tegwch yn gynnar gyda nifer o asiantaethau a sefydliadau'n bresennol yn gam sylweddol tuag at wella a sicrhau gweithrediad yr agenda tegwch o ran brechu.
- Mae gweithio mewn partneriaeth drwy'r MVV wedi bod yn hynod fuddiol a llwyddiannus a chaiff ei ddefnyddio ar gyfer ymgyrchoedd yn y dyfodol.
- Darparu gwybodaeth a data amserol
- Mae cyfarfodydd ar-lein wedi golygu bod pobl yn gallu ymuno am awr yn rheolaidd sydd wedi gwella cynrychiolaeth o wahanol grwpiau targed. Mae hyn wedi galluogi gwell rhannu gwybodaeth, gwell gallu i drafod problemau, cymharu profiadau a darparu atebion. Enillodd y rhai yn y grŵp hyder wrth siarad ag eraill am y brechlyn a chwalu gwybodaeth anghywir.

Gwersi/Arferion Gorau:

Bydd gan y perthnasoedd a gaiff eu hadeiladu o fewn y Grŵp Tegwch o ran Brechu fuddion mewn meysydd eraill hefyd, yn enwedig o ran sefydlu proses a llwybr ar gyfer cydweithredu yn y dyfodol. Bydd y grŵp hwn yn cael ei ddefnyddio i sicrhau mynediad teg at bigiad atgyfnerthu COVID-19 a bydd hefyd yn cefnogi'r rhaglen brechu rhag y ffliw. Mae ganddo hefyd y potensial i fod yn fforwm defnyddiol iawn ar gyfer trafod a gwella mynediad at wasanaethau gofal iechyd eraill yn y dyfodol.

Astudiaeth achos: Defnyddio Gwirfoddolwyr

Cefndir:

Mae rolau gwirfoddoli newydd wedi'u cyflwyno gan Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru i ymateb i'r pandemig - Gwirfoddolwr cyflwyno brechu / Gwirfoddolwr gwiriadau diogel ac iach

Gwaith a gyflawnwyd:

Mae deg o wirfoddolwyr wedi cefnogi'r unedau brechu dros dro a ddarparwyd gan GTACGC i Hywel Dda. Defnyddiwyd ein gwirfoddolwyr, yn ogystal â dau o'n cerbydau ymgysylltu, gan y Bwrdd Iechyd i gyrraedd pobl yn y cymunedau hyn na allent gyrraedd y canolfannau brechu. Defnyddiwyd un cerbyd ymgysylltu fel man i roi'r brechiad, a defnyddiwyd y llall i bobl eistedd i mewn ac aros am eu brechiad.

Ymgysylltodd ein gwirfoddolwyr ag aelodau o'r cyhoedd i sicrhau eu bod yn gwybod ble i fynd, yn gwirio eu llesiant ac yn rhoi cyngor diogelwch tân iddynt, gan gynnig archwiliad diogel ac iach iddynt. Gweithiodd y gwirfoddolwyr hyn ochr yn ochr â deg o staff y Gwasanaeth Tân ac Achub.

Er mwyn ôl-lenwi rolau rhai o'r staff Tân ac Achub a oedd yn helpu i gyflwyno'r brechlyn, roedd gennym hefyd 3 gwirfoddolwr i helpu ein tîm diogelwch cymunedol yn y gymuned i gynnal gwiriadau diogel ac iach. Maent wedi rhoi cyngor diogelwch i aelodau'r cyhoedd ac wedi gosod larymau gyda'n personél.

Mae'r cymorth hwn wedi'i ddarparu gan wirfoddolwyr o 1 Gorffennaf 2021 hyd heddiw.

Buddion:

Y buddion i'r gwirfoddolwr fu bod yn rhan o'r tîm neu fel rydyn ni'n dweud "ein teulu tân". Maent wedi ennill profiad a hyder wrth ymgysylltu â chynulleidfa amrywiol ac wedi gwneud cysylltiadau ag asiantaethau partner.

Y manteision i ni fel gwasanaeth fu ein bod wedi gallu cefnogi Bwrdd Iechyd Hywel Dda gyda llai o adnoddau, gan ryddhau aelodau eraill o staff i gyflawni eu dyletswyddau arferol. Mae'r gwirfoddolwyr wedi galluogi ein personél i gynnal gwiriadau mewn tîm o ddau, gan helpu gyda gweithio unigol. Mae ein gwirfoddolwyr hefyd wedi ein cyfeirio at

eu rhwydweithiau i helpu mwy o bobl yn ein cymuned a fyddai'n elwa o wiriad diogel ac iach.

Gwersi/Arferion Gorau:

Mae wedi dangos pa mor fuddiol y gall gwirfoddoli fod i bawb sy'n cymryd rhan ac o'r treial hwn yng Nghaerfyrddin byddwn yn ehangu hyn yn 2022 i bob adran. Mae'r gwaith partneriaeth gwell wedi nodi cyfleoedd pellach i gynorthwyo gyda'r rhaglen frechu yn y dyfodol.

Rydym yn ystyried gwneud defnydd cynyddol o wirfoddolwyr yn ein gwasanaeth yn y dyfodol.

Astudiaeth achos: Cymorth Dementia – Protocol Herbert / Neges mewn potel

Cefndir:

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC) wedi nodi bod ein staff yn darparu ymweliadau diogelwch yn y cartref i lawer o bobl oedrannus sy'n byw gyda dementia ac am eu cefnogi nhw a'u teuluoedd i fyw bywydau gwell.

Gwaith a gyflawnwyd:

Am y pedair blynedd diwethaf, mae GTACGC wedi gweithio mewn partneriaeth â chlwb y Llewod i ddefnyddio eu cynllun 'neges mewn potel' gan annog pobl i gadw manylion personol a meddygol yn eu hoergell er mwyn i'r gwasanaethau brys ddod o hyd iddynt os oes angen. Bydd staff yn sefydlu hyn lle maent yn canfod angen.

Rydym hefyd wedi cyfuno hyn â 'Protocol Herbert' yr Heddlu ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia. Holiadur yw protocol Herbert y gall y Gwasanaeth Tân ac Achub ei gwblhau gyda'r person sy'n byw gyda dementia a'i deulu neu weithiwr cymorth / gofalwr. Mae hefyd yn cael ei roi yn yr oergell ac yn nodi unrhyw leoliadau y gallai fod gan y person gysylltiadau hanesyddol â nhw yn ogystal â disgrifiad, ffotograff diweddar a darnau eraill o wybodaeth a allai fod o ddefnydd i'r heddlu pe bai angen iddynt chwilio am y person sy'n byw gyda dementia os yw'n gadael yr eiddo.

Mae cwblhau protocol Herbert yn caniatáu i'r heddlu gasglu gwybodaeth hanfodol i hysbysu'r chwiliad mewn modd amserol heb orfod cwestiynu'n ormodol aelodau o'r teulu sydd wedi ypsetio. Mae'n arbennig o ddefnyddiol os yw'r partner hefyd yn dangos arwyddion o golli cof tymor byr.

Mae'r gwasanaethau brys felly'n gallu cyrchu'r wybodaeth yn hawdd heb orfod dibynnu ar aelodau'r teulu sy'n gofidio i ddod o hyd i ble y gallent fod wedi gosod y ffurflenni wedi'u llenwi.

Buddion:

Mae'n caniatáu i'r heddlu gynnal chwiliad wedi'i dargedu am y person coll a phrofwyd bod protocol Herbert yn lleihau'r amser y mae person ar goll yn sylweddol ac felly'n lleihau difrifoldeb unrhyw faterion iechyd cysylltiedig fel hypothermia.

Gwersi/Arferion Gorau:

Mae llenwi'r ffurflenni gyda'r teulu, gofalwyr ac ati mewn ffordd ddiogel a chyfforddus yn sicrhau y gellir casglu'r wybodaeth yn gywir a rhoi sicrwydd i'r teulu y bydd unrhyw chwiliadau am y person sy'n byw gyda dementia yn fwy llwyddiannus.